

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU****RHEOLIADAU ADDYSG (CYMWYSTERAU A SAFONAU IECHYD ATHRAWON) (CYMRU) 1999****Cefndir**

Mae'r Rheoliadau yn ailddeddfu, i Gymru, llawer o'r ddarpariaeth a gafwyd o'r blaen yn Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1993. Ond maent yn cyflwyno darpariaeth newydd sy'n tynhau'r cyfryngau gwirio perthnasol i gyflogaeth a chymwysterau athrawon, a darpariaeth sy'n deillio o'r newidiadau yn fframwaith ysgolion a gyflwynwyd yn Neddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998.

Rheol Sefydlog 11.5

Ni fernir bod unrhyw nodweddion ar y Rheoliadau hyn a fyddai'n peri i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt ar y seiliau a bennir yn RhS 11.5.

Sylw ar y Rheoliadau

Tynnir y materion canlynol at sylw'r Pwyllgor. Er nad ydynt o fewn telerau RhS 11.5, gellid cynnwys rhai ohonynt fel sylwadau yn Adroddiad y Pwyllgor, pe fernid bod hynny i'w ddymuno.

Dyddiad eu Gwneud

Gan fod y rhain yn rheoliadau wedi'u gwneud ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor o dan RhS 22.26, dylai dyddiad eu gwneud fod wedi'i fewnosod yn y copi a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Eu Cymhwyso i Gymru

Nid yw'r Rheoliadau yn datgan yn ffurfiol eu bod yn gymwys i Gymru yn unig. Gallasid gwneud hynny yn Rheoliad 1. Ond nid yw hwn yn fater o bwys mawr, gan fod y teitl yn dangos yn glir eu bod yn Rheoliadau i Gymru. Ac nid yw pwerau'r Cynulliad yn ymestyn y tu hwnt i Gymru beth bynnag.

Sylwadau cyffredinol ar y drafftio

Wrth lunio'r Rheoliadau hyn, pwyswyd yn drwm ar y fformat a ddefnyddiwyd yn yr offeryn y mae'r Rheoliadau hyn ei ddisodli, ac mae'n amlwg y bu hynny'n anorfod o ystyried y pwysau i ddrafftio nifer fawr o offerynnau statudol Addysg a'u gwneud yn barod erbyn 1 Medi. Ond yn y dyfodol, credir y bydd yn bosibl drafftio offerynnau'r Cynulliad mewn

arddull symlach.

Rheoliad 3 – pwyntiau cyffredinol

"Dehongli" ddylasai fod yn bennawd i hwn.

Ar ben hynny, gallasai fod ar ffurf a fyddai'n fwy o gymorth i'r defnyddiwr. Hynny yw, gallasid rhoi rhestr gynhwysfawr, yn ôl trefn yr wyddor, o dermau wedi eu diffinio yn lle'r ddarpariaeth amrywiol yn y gwahanol baragraffau.

Rheoliad 3(1)(b)(c)

Gallasai troednodiadau fod wedi bod yn ddefnyddiol i ddangos ymhle ceir y diffiniadau at y "sector addysg bellach" a'r "sector addysg uwch" mewn deddfwriaeth gynradd.

Rheoliad 3(2) – troednodiadau (a) a (b)

Yn y copi printiedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, mae'r troednodiadau hyn yn ymddangos ar dudalen 4 yn hytrach na thudalen 5. Gobeithio y bydd hyn wedi'i gywiro yn y copi a gyhoeddir.

Rheoliad 3(2) – "sefydliad achrededig"

Dylid nodi bod y diffiniad hwn yn cyfeirio at sefydliad a achredir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan baragraff 2 o Atodlen 3. Ond pan edrychir ar baragraff 2 o Atodlen 3, gwelir bod is-baragraff (2)(c) yn cynnwys diffiniad hwy o "sefydliad achrededig" sydd yr un fath â'r un a geir yn Rheoliad (2) ond gyda geiriau ychwanegol sy'n awgrymu'r meini prawf a all y Cyngor Cyllido eu defnyddio i achredu sefydliadau. Awgrymir bod darpariaeth o'r fath yn faes amlwg i'w symleiddio drwy ddefnyddio un diffiniad yn unig.

Rheoliad 3(2) "addysg uwch", paragraff (e)

Nid yw'n glir a reolir y Diploma mewn Astudiaethau Rheoli gan y naill neu'r llall o'r cyfeiriadau blaenorol at BTEC a Sefydliad Edexcel neu'r ddau ohonynt. Ond tybir bod y bydd defnyddwyr y Rheoliadau hyn yn gyfarwydd â'r Diploma.

Rheoliad 3(2) "athro cymwysedig"

Gallasai fod yn well i ddefnyddwyr pe ddiffinnid "athro anghymwysedig" mewn erthygl ar wahân.

Rheoliad 5(1)

Nid yw'n eglur pam bod y cyfeiriadau at "fel athrawon" ac " fel gweithwyr" yn y lluosog. Ymddengys y byddai'r cyfeiriad at "gyflogaeth berthnasol" yn y cyd-destun y'i ddefnyddir yn Rhan III yn gwarantu defnydd o'r unigol yn hytrach na'r lluosog.

Rheoliad 6(4)

O ystyried Rheoliad 5(2), gall fod bod y geiriau "neu i gael ei gyflogi...heblaw o dan gontract cyflogaeth" yn ddianghenraid.

Llofnodi

Gan fod y Rheoliadau yn rheoliadau a wnaethpwyd eisoes ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor o dan RhS 22.26, dylai'r dyddiad y'u llofnodwyd a nod yn cydnabod iddynt gael eu llofnodi, fod wedi'u cynnwys.

Atodlen 1 Rhan 1

Yn y copi o'r Rheoliadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, mae teip Rhan I yn wahanol i deip gweddill y Rheoliadau. Cymerir yn ganiataol y bydd hyn yn cael ei gywiro pan argreffir y Rheoliadau.

Atodlen 1 Rhan 7

Mae'r paragraff hwn yn gweithredu drwy achosi i reoliadau sydd, mewn gwirionedd, wedi eu diwygio a wedi hynny, wedi eu diddymu, barhau mewn grym. Mae hon yn dechneg y dibynnir arni pan fetho pob peth arall ond ni chroesewid ei defnyddio naill ai'n aml neu ar sail eang.

Atodlen 1 Paragraff 8

Yn y copi a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, mae'r paragraff hwn mewn cromfachau petryal. Yn amlwg, bwriadwyd hepgor naill ai'r cromfachau neu'r paragraff cyn gwneud y Rheoliadau. Gan fod y paragraff wedi ei gynnwys yn y copi o'r Rheoliadau a wnaethpwyd, bydd yn rhan o'r Rheoliadau ond gellir dileu'r cromfachau petryal pan y'u hargreffir. Hwyrach bod y cromfachau yn dynodi ansicrwydd ynglŷn â'r angen i gynnwys y paragraff hwn o ystyried adran 23 o Ddeddf Llywodraeth Cymru sydd, mewn perthynas â swyddogaethau a drosglwyddwyd, yn darparu bod i faterion a wnaethpwyd gan Weinidog y Goron effaith fel petasent wedi'u gwneud gan y Cynulliad.

Atodlen 2 Paragraff 1

Ymddengys nad oes yma ofyn ar i bersonau o'r fath fod yn gyflogedig ar hyn o bryd.

Atodlen 2 Paragraff 2(1)(b)

Ystyrir mai "therefor" a ddylasai fod yn lle "therefore".

Atodlen 3 Paragraff 2(1)(b)

Efallai y dylid gofyn a yw'r geiriau "yng Nghymru" yn angenrheidiol neu yn fwriadol. Mae'r cyfeiriad at sefydliad achrededig yn gyfeiriad at sefydliad a achredwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Felly, gellid gofyn a allant achredu sefydliad y tu allan i Gymru ac, os felly, a fwriadwyd hepgor sefydliad o'r fath ar yr achlysur hwn.

Cyfeiriwyd eisoes uchod at gymhlethdod y diffiniad rhanedig o "sefydliad achrededig" fel a geir yn Rheoliad 3(2) a pharagraff 2(2)(c) o Atodlen 3.

Atodlen 3 Paragraff 7(1)

Er cyfleuster y defnyddiwr, efallai y byddai wedi bod yn well petasai'r geiriau agoriadol hyn yn cyd-fynd â'r geiriau a ddefnyddiwyd yn gyffredinol yn y paragraffau eraill h.y.

"Mae'r person wedi derbyn awdurdodiad ac mae'r corff argymell wedi ...".

Dylid nodi fod "awdurdodiad" wedi'i ddiffinio yn Rheoliad 3(2) fel awdurdodiad i addysgu a roir gan y Cynulliad yn unol â Rhan III neu II o Atodlen 2.

Yn Rheoliad 3(2), y diffiniad o "y corff sy'n argymell" yw'r corff sy'n trefnu'r hyfforddiant.

Ymgynghorydd Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfau

14 Medi 1999

Cyf: LAD 01-01-008 999JT16

LC3

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

1999 Rhif (C.)

1999 No. (W.)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

***Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau
Iechyd Athrawon) (Cymru)***

***The Education (Teachers' Qualifications and
Health Standards) (Wales) Regulations 1999***

1999

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

At ei gilydd mae'r Rheoliadau hyn yn ailddeddfu'r darpariaethau presennol yn Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1993. Maent hefyd yn cyflwyno darpariaethau newydd sy'n tynhau'r moddion archwilio a gwirio sy'n ymwneud â chyflogaeth a chymwysterau athrawon

These Regulations largely re-enact existing provisions in the Education (Teachers) Regulations 1993. They also introduce new provisions which tighten checks relating to the employment and qualifications of teachers.

Mae'r Rheoliadau yn cynnwys amrywiaeth o fesurau sy'n ymwneud â chyflogaeth a chymwysterau athrawon mewn ysgolion yn ogystal â newidiadau sy'n deillio o'r fframwaith newydd i ysgolion a amlinellir yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Byddant yn :

The Regulations contain a variety of measures relating to the employment and qualifications of teachers in schools as well as changes resulting from the new school framework set out in the School Standards and Framework Act 1998. They

will:

- darparu ar gyfer staffio ysgolion a gynhelir a rhai sefydliadau addysg bellach;
 - ei gwneud yn ofynnol bod cyflogwyr athrawon a rhai aelodau eraill o staff mewn ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach yn fodlon ar iechyd a chyneddfau corfforol a meddyliol eu staff;
 - adlewyrchu darpariaethau Deddf Gwahaniaethau ar Sail Anabledd 1995;
 - darparu bod athrawon a gyflogir mewn ysgolion a gynhelir yn athrawon cymwysedig, gyda rhai eithriadau, ac yn gwneud darpariaeth arbennig i athrawon disgyblion a nam ar eu clyw, a nam ar eu golwg ac a nam ar eu clyw a'u golwg;
 - darparu bod person sy'n athro cymwysedig at ddibenion Rheoliadau sy'n ymwneud â chymysgo athrawon yn Lloegr yn cael ei drin yn gyfartal fel athro cymwysedig yng Nghymru.
- make provision for the staffing of maintained schools and certain further education institutions;
 - require employers of teachers and certain other staff at maintained schools and further education institutions to be satisfied as to the health and physical and mental capacities of such staff;
 - reflect the provisions of the Disability Discrimination Act 1995;
 - provide for teachers employed in maintained schools to be qualified teachers, subject to some exception, and make special provision for teachers of hearing impaired, visually impaired and hearing and visually impaired pupils;
 - provide that a person who is a qualified teacher for the purposes of Regulations concerning teachers' qualification to be made in relation to England is to be treated equally as a qualified teacher in Wales.

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn disodli darpariaethau sy'n ymwneud â gwahardd a gynhwysir yn Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1993.

The Regulations do not supersede the provisions in relation to barring contained in the 1993 Education (Teachers) Regulations 1993.

OFFERYNNAUSTATUDOL

STATUTORYINSTRUMENTS

1999 Rhif (C.)

1999 No. (W.)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau
Iechyd Athrawon) (Cymru)**

**The Education (*Teachers' Qualifications and
Health Standards*) (Wales) Regulations 1999**

1999

Wedi'u gwneud

Made

Yn dod i rym 1 Medi 1999

Coming into force 1st September 1999

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 218(1)(a), (b), (d), (2), (2A), (2B), (3), (5), a 232(5) a (6) o Ddeddf Diwygio Addysg 1998^(a) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru^(b), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 218(1)(a), (b), (d), (2), (2A), (2B), (3), (5), and 232(5) and (6) of the Education Reform Act 1988⁽ⁱ⁾ and now vested in the National Assembly for Wales^(b), the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

RHAN 1

CYFFREDINOL

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Safonau Iechyd Athrawon) (Cymru) 1999 a deuant i rym ar 1 Medi 1999.

Diddymiadau a darpariaethau trosiannol

2.-(1) Bydd i Ran I o Atodlen 1 effaith o ran y diddymiadau a grybwyllir yno.

(2) Bydd i Ran II o Atodlen 1 effaith o ran y materion trosiannol a grybwyllir yno.

3.-(1) Ac eithrio lle bo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn y Rheoliadau hyn -

(a) mae cyfeiriad at ysgol yn gyfeiriad at ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol neu ysgol arbennig na chynhelir mohoni felly;

(b) mae cyfeiriad at sefydliad addysg bellach yn gyfeiriad at sefydliad, nad yw'n ysgol, sy'n darparu addysg bellach (p'un a yw'n darparu addysg uwch hefyd neu beidio) ac sydd -

i. naill ai'n cael ei gynnal

gan awdurdod addysg

lleol, neu

ii. yn y sector addysg

bellach;

i. mae cyfeiriad heb oleddfu at

PART I

GENERAL

Citation and commencement

1. These Regulations may be cited as the Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (Wales) Regulations 1999 and shall come into force on 1st September 1999.

Revocations and transitional provisions

2.- (1) Part I of Schedule I shall have effect as respects the revocations there mentioned.

(2) Part II of Schedule 1 shall have effect as respects the transitional matters there mentioned.

3.- (1) Except where the context otherwise requires, in these Regulations-

(a) a reference to a school is a reference to a school maintained by a local education authority or a special school not so maintained;

(b) a reference to a further education institution is a reference to an institution, not being a school, which provides further education (whether or not it also provides higher education) and either-

(i) is maintained by a local education authority, or

(ii) is within the further education sector;

sefydliad yn gyfeiriad at sefydliad addysg bellach neu sefydliad yn y sector addysg uwch; a

(d) mae cyfeiriad at weithiwr gyda phlant neu bobl ifanc yn gyfeiriad at berson, heblaw athro, y mae ei waith yn dod ag ef i gysylltiad rheolaidd â phersonau nad ydynt wedi cyrraedd 19 oed eto.

(2) Ac eithrio lle bo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "sefydliad achrededig" yw sefydliad a achredir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan baragraff 2 o Atodlen 3;

ystyr "Cynulliad" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a)

ystyr "awdurdodiad" yw awdurdodiad i addysgu a roir i berson gan y Cynulliad yn unol â Rhan III neu II o Atodlen 2;

ystyr "BTEC" yw'r Cyngor Addysg Busnes a Technoleg;

ystyr "coleg dinasol" yw coleg technoleg dinasol neu goleg dinasol ar gyfer technoleg y celfyddydau;

mae i "cwmni" yr un ystyr ag sdd i "company" yn Neddf Cwmnïau 1985^(b);

ystyr "athro graddedig" yw person y rhoddwyd awdurdodiad iddo yn unol â Rhan II o Atodlen 2;

ystyr "â nam ar y clyw" yw byddar neu rannol fyddar;

ystyr "addysg uwch" yw addysg a ddarperir drwy unrhyw un o'r cyrsiau canlynol-

(c) a reference to an institution without qualification is a reference to a further education institution or an institution within the higher education sector; and

(d) a reference to a worker with children or young persons is a reference to a person, other than a teacher, whose work brings him regularly into contact with persons who have not attained the age of 19 years.

(2) Except where the context otherwise requires, in these Regulations-

"accredited institution" means an institution accredited by the Higher Education Funding Council for Wales under paragraph 2 of Schedule 3;

"Assembly" means the National Assembly for Wales^(a)

"authorisation" means an authorisation to teach granted to a person by the Assembly in accordance with Part II or III of Schedule 2;

"BTEC" means the Business and Technology Education Council;

"city college" means a city technology college or a city college for the technology of the arts;

"company" has the same meaning as in the Companies Act 1985^(b) ;

"graduate teacher" means a person to whom an authorisation has been granted in accordance with Part II of Schedule 2;

"hearing impaired" means deaf or partially hearing;

"higher education" means education provided by any of the following courses-

(a) cwrs i roi hyfforddiant pellach i athrawon neu weithwyr ieuencid a gweithwyr cymunedol;

(b) cwrs ôl-raddedig (gan gynnwys cwrs gradd uwch);

(c) cwrs gradd gyntaf;

(d) cwrs ar gyfer y Diploma Addysg Uwch;

(e) cwrs ar gyfer Diploma Cenedlaethol Uwch BTEC neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch BTEC a ddarperir gan Sefydliad Edexcel, neu'r Ddiploma mewn Astudiaethau Rheoli;

(f) cwrs ar gyfer y Dystysgrif Addysg;

(g) cwrs i baratoi ar gyfer Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol ar lefel 4 neu 5;

(h) cwrs sy'n darparu addysg (boed er mwyn paratoi ar gyfer arholiad neu beidio) ar safon uwch na safon y cyrsiau sy'n darparu addysg i baratoi ar gyfer arholiadau safon uwch safon y Dystysgrif Addysg Gyffredinol neu arholiad ar gyfer Tystysgrif Genedlaethol BTEC neu Ddiploma Cenedlaethol BTEC a ddarperir gan y Sefydliad Edexcel;

(a) a course for the further training of teachers or youth and community workers;

(b) a post-graduate course (including a higher degree course);

(c) a first degree course;

(d) a course for the Diploma of Higher Education;

(e) a course for the BTEC Higher National Diploma or BTEC Higher National Certificate provided by the Edexcel Foundation, or the Diploma in Management Studies;

(f) a course for the Certificate in Education;

(g) a course in preparation for a National Vocational Qualification at level 4 or 5;

(h) a course providing education (whether or not in preparation for an examination) at a standard higher than the standard of courses providing education in preparation for examinations at advanced level for the General Certificate of Education or the examination for the BTEC National Certificate or the BTEC National Diploma

ystyr "a nam ar y golwg" yw dall neu rannol ddall.

"qualified teacher" has the meaning given to it by regulation 10 and "unqualified teacher" shall be construed accordingly;

ystyr "athro cofrestredig" yw person y rhoddwyd awdurdodiad iddo yn unol â Rhan III o Atodlen 2;

"recommending body" means the body that is the organiser of the training given or to be given to the person named in the recommendation;

mae i "athro cymwysedig" yr ystyr a roddir iddo gan Reoliad 10 a dylid dehongli "athro anghymwysedig" yn unol â hynny;

"registered teacher" means a person to whom an authorisation has been granted in accordance with Part III of Schedule 2;

mae i "cyflogaeth berthnasol" yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 5; ac

"relevant employment" has the meaning given to it by regulation 5; and

ystyr "y corff sy'n argymhell" yw'r corff sy'n trefnu'r hyfforddiant a roddwyd neu sydd i'w roi i'r person a enwir yn yr argymhelliad.

"visually impaired" means blind or partially sighted.

(3) Yn y Rheoliadau hyn-

(3) In these Regulations-

- a. mae unrhyw gyfeiriad at Reoliadau 1959 yn gyfeiriad at Reoliadau Ysgolion 1959^(a) (fel y bônt mewn grym o bryd i'w gilydd) gan gynnwys y rheoliadau hynny a gymhwysir i athrawon mewn ysgolion arbennig gan reoliad 16

Reoliadau Disgyblion dan Anfantais ac Ysgolion Arbennig 1959 (a), a dehonglir unrhyw gyfeiriad at gymeradwyaeth at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn Rheoliadau 1959 fel un sy' cynnwys cyfeiriad at gymeradwyaeth, a oedd yn cael effaith, yn rhinwedd Rheoliad 21 o'r Rheoliadau hynny, fel petai wedi'i roi o dan

(a) any reference to the 1959 Regulations is a reference to the Schools Regulations 1959⁽ⁱ⁾ (as from time to time in force) including those regulations as applied to teachers at special schools by regulation 16 of the Handicapped Pupils and Special Schools Regulations 1959⁽ⁱ⁾, and any reference to an approval for the purposes of any provision of the 1959 Regulations shall be construed as including a reference to an approval which, by virtue of regulation 21 thereof, had effect as if given

y ddarpariaeth honno

under that provision;

(b) mae unrhyw gyfeiriad at Reoliadau 1982 yn gyfeiriad at Reoliadau Addysg (Athrawon) 1982^(c);

(c) mae unrhyw gyfeiriad at Reoliadau 1989 yn gyfeiriad at Reoliadau Addysg (Athrawon) 1989^(a); a

(d) mae unrhyw gyfeiriad at Reoliadau 1993 yn gyfeiriad at Reoliadau Addysg (Athrawon) 1993.^(b)

(b) any reference to the 1982 Regulations is a reference to the Education (Teachers) Regulations 1982^(c);

(c) any reference to the 1989 Regulations is a reference to the Education (Teachers) Regulations 1989^(a); and

(d) any reference to the 1993 Regulations is a reference to the Education (Teachers) Regulations 1993^(b).

(4) Ac eithrio lle bo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, gall cymeradwyaeth at ddibenion y Rheoliadau hyn fod yn gymwys yn gyffredinol (yn ddarostyngedig i'r eithriadau, os oes rhai, a bennir ynddynt) neu mewn achos penodol yn unig. Ystyr "wedi'i gymeradwyo" ynglŷn â chwrs yw wedi'i gymeradwyo gan y Cynulliad.

(4) Except where the context otherwise requires, an approval for the purposes of these Regulations may apply generally (subject to such exceptions, if any, as are specified therein) or only in a particular case, and "approved" in relation to a course means approved by the Assembly.

(5) Mae unrhyw gyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at reoliad neu at Atodlen i hyn yn gyfeiriad at reoliad a gynhwysir yma neu at Atodlen i hyn. Mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad neu Atodlen at baragraff yn gyfeiriad at baragraff o'r rheoliad hwnnw neu'r Atodlen honno. Mae unrhyw gyfeiriad mewn paragraff at is-baragraff yn gyfeiriad at is-baragraff ohono.

(5) Any references in these Regulations to a regulation or Schedule is a reference to a regulation contained herein or to a Schedule hereto, any reference in a regulation or Schedule to a paragraph is a reference to a paragraph of that regulation or Schedule and any reference in a paragraph to a sub-paragraph is a reference to a sub-paragraph thereof.

RHAN II

PART II

DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I YSGOLION A SEFYDLIADAU ADDYSG BELLACH

PROVISIONS APPLYING TO SCHOOLS AND FURTHER EDUCATION INSTITUTIONS

Staffio ysgolion a sefydliadau addysg bellach

4.-(1) Mewn unrhyw ysgol neu sefydliad addysg bellach cyflogir staff o athrawon sy'n addas ac y mae eu nifer yn ddigon i ddibenion sicrhau bod addysg briodol i oedrannau, galluoedd, doniau ac anghenion y disgyblion neu'r myfyrwyr yn cael ei darparu gan roi sylw i unrhyw drefniadau ar gyfer defnyddio gwasanaethau'r athrawon a gyflogir y tu allan i'r ysgol neu'r sefydliad addysg bellach dan sylw.

(2) Heb ragfarnu'r egwyddor gyffredinol paragraff (1)-

(a) bydd y staff o athrawon a gyflogir mewn ysgol yn cynnwys prifathro neu brifathrawes;

(b) bydd gan y staff o athrawon a gyflogir mewn sefydliad addysg bellach y cymwysterau priodol i roi hyfforddiant digonol yn y pynciau y darperir cyrsiau ynddynt.

(3) Mae'r gofyniad ym mharagraff (1) yn ychwanegol at y gofynion ynglŷn â'r cymwysterau ar gyfer cyflogaeth mewn ysgolion a gynhwysir yn Rhan IV o'r Rheoliadau hyn.

Staffing of schools and further education institutions

4.- (1) At any school or further education institution there shall be employed a staff of teachers suitable and sufficient in numbers for the purpose of securing the provision of education appropriate to the ages, abilities, aptitudes and needs of the pupils or students having regard to any arrangements for the utilisation of the services of teachers employed otherwise than at the school or further education institution in question.

(2) Without prejudice to the generality of paragraph (1)-

(a) the staff of teachers employed at a school shall include a head teacher;

(b) the staff of teachers employed at a further education institution shall have qualifications appropriate to the giving of adequate instruction in the subjects in which courses are provided.

(3) The requirement in paragraph (1) is additional to the requirements relating to qualifications for employment at schools contained in Part IV of these Regulations.

RHAN III

DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS YN GYFFREDINOL

PART III

PROVISIONS OF GENERAL APPLICATION

5.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) mae unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon at gyflogaeth berthnasol yn gyfeiriad at gyflogaeth-

(a) gan awdurdod addysg lleol, fel athrawon (boed mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach neu beidio) neu fel gweithwyr gyda phlant neu bobl ifanc;

(b) gan unrhyw gorff arall, fel athrawon mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach; neu

(c) gan gorff llywodraethu ysgol neu sefydliad addysg bellach fel gweithwyr gyda phlant neu bobl ifanc.

5.- (1) Any reference in this Part to relevant employment is subject to paragraph (2), a reference to employment-

(a) by a local education authority, as teachers (whether or not at a school or further education institution) or as workers with children or young persons;

(b) by any other body, as teachers at a school or further education institution; or

(c) by the governing body of a school or further education institution as workers with children or young persons.

(2) At ddibenion y Rhan hon, mae cyflogaeth yn cynnwys cyflogi person i roi ei wasanaethau fel athro heblaw o dan contract cyflogaeth a dehonglir cyfeiriadau at gyflogaeth neu gyflogaeth berthnasol yn unol â hynny.

(2) For the purposes of this Part, employment includes the engagement of a person to provide his services as a teacher otherwise than under a contract of employment and references to employment or relevant employment shall be construed accordingly.

Safonau iechyd-penodiadau

6.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), ni chaiff person ei benodi i gyflogaeth berthnasol os nad oes ganddo'r iechyd na'r gynneddf feddyliol a chorfforol ar gyfer y gyflogaeth honno, gan roi sylw i unrhyw ddyletswydd ar y cyflogwr o dan Ran II o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995^(a).

(2) Os caiff person ei benodi'n athro am y tro cyntaf a bod y Cynulliad yn fodlon fod ganddo'r iechyd a'r gynneddf feddyliol a chorfforol i addysgu, caiff ei gyflogwyr dderbyn casgliadau'r Cynulliad ar y mater os ymddengys yn rhesymol iddynt wneud hynny.

Health standards-appointments

6.-(1) Subject to paragraph (4), a person shall not be appointed to relevant employment if, having regard to any duty of the employer under Part II of the Disability Discrimination Act 1995⁽ⁱ⁾, he does not have the health and mental and physical capacity for that employment.

(2) In the case of the first appointment as a teacher of a person in respect of whom the Assembly has been satisfied that he has the health and mental and physical capacity for teaching, his employers may accept the conclusions of the Assembly in the matter where it appears to them reasonable to do so.

(3) Os caiff person a fu gynt mewn cyflogaeth berthnasol ei benodi i gyflogaeth berthnasol, caiff ei gyflogwyr ddibynnu ar gofnod meddygol y person tra oedd yn y gyflogaeth honno er mwyn penderfynu a oes gan y person yr iechyd a'r gynneddf feddyliol a chorfforol ar gyfer cyflogaeth o'r fath.

(4) Ni fernir bod gan berson sy'n cael pensiwn ymddeol yn rhinwedd Rheoliad E4(4) o Reoliadau Pensiynau Athrawon 1997^(b)(ymddeol ar sail afiechyd) yr iechyd a'r gynneddf feddyliol a chorfforol i gael ei benodi i gyflogaeth berthnasol neu i gael ei gyflogi i roi ei wasanaethau fel athro mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach heblaw o dan gontract cyflogaeth, ond ceir penodi neu gyflogi person y daeth ei hawl i bensiwn o'r fath yn weithredol cyn 1 Ebrill 1997 i wasanaethu'n rhan amser.

(5) Nid oes dim ym mharagraff (4) yn atal penodi na chyflogi person nad yw wedi'i analluogi bellach ac y mae ei bensiwn ymddeol o'r herwydd wedi peidio â bod yn daladwy.

Safonau iechyd-parhau mewn swydd gyflogedig

7.-(1) Ni fydd person mewn swydd gyflogedig berthnasol yn parhau yn y swydd honno os nad oes ganddo'r iechyd a'r gynneddf feddyliol a chorfforol ar gyfer y swydd honno, gan roi sylw i unrhyw ddyletswydd ar y cyflogwr o dan Ran II o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabled 1995.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, os ymddengys i'w gyflogwyr nad oes gan berson yr iechyd na'r gynneddf feddyliol neu gorfforol bellach ar gyfer ei swydd gyflogedig-

(a) byddant yn rhoi'r cyfle iddo gyflwyno tystiolaeth feddygol ac achos iddynt;

(3) In the case of any appointment to relevant employment of a person previously in such employment, his employers may where it appears to them reasonable to do so rely upon the person's medical record while in that employment for the purpose of determining that the person has the health and mental and physical capacity for such employment.

(4) A person who is in receipt of a retirement pension by virtue of regulation E4(4) of the Teachers' Pensions Regulations 1997^(b)(ill health retirement) shall not be regarded as having the health and mental and physical capacity to be appointed to relevant employment or to be engaged to provide his services as a teacher at a school or further education institution otherwise than under a contract of employment, save that a person whose entitlement to such pension took effect before 1st April 1997 may be so appointed or engaged to serve part-time.

(5) Nothing in paragraph (4) prevents the appointment or engagement of a person who has ceased to be incapacitated and whose retirement pension has for that reason ceased to be payable.

Health standards-continued employment

7.- (1) A person in relevant employment shall not continue in that employment if, having regard to any duty of the employer under Part II of the Disability Discrimination Act 1995, he does not have the health and mental and physical capacity for that employment.

(2) For the purposes of this regulation, where it appears to his employers that a person may no longer have the health or mental or physical capacity for his employment-

(a) they shall afford him an opportunity to submit medical evidence and make representations to them;

(b) they shall consider

(b) byddant yn pwyso a mesur y dystiolaeth a'r achos ac unrhyw dystiolaeth feddygol arall sydd ar gael iddynt, gan gynnwys tystiolaeth sydd wedi'i rhoi'n gyfrinachol ar y sail na fyddai er lles y person dan sylw i'w gweld;

(c) cânt fynnu iddo ymddangos gerbron meddyg a chanddo'r cymwysterau priodol ac a benodwyd ganddynt i gael ei archwilio neu gânt drefnu bod hyn yn digwydd os yw'n gofyn amdano. Os nad yw'n ymddangos i gael ei archwilio heb reswm da neu os yw'n gwrthod rhyddhau'r wybodaeth feddygol y mae'r meddyg yn gofyn amdani, er y byddai tystiolaeth feddygol bellach yn ddymunol, cânt ddod i gasgliad ar y mater ar sail y dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael iddynt gan gynnwys y casgliad nad oes ganddo'r iechyd na'r gynneddf feddyliol a chorfforol ar gyfer ei gyflogaeth.

such evidence and representations and any other medical evidence available to them, including such evidence which has been furnished in confidence on the ground that it would not be in the best interests of the person concerned to see it;

(c) they may require him, or at his request shall arrange for him, to submit himself for examination by a duly qualified medical practitioner appointed by them and, if without good cause he fails to submit himself for such examination or refuses to make available medical evidence or information sought by the medical practitioner, they may reach a conclusion in the matter, including a conclusion that he no longer has the health or mental or physical capacity for his employment, on such evidence and information as is available to them, notwithstanding that further medical evidence may be desirable.

(3) Ar unrhyw adeg cyn yr archwiliad meddygol y cyfeirir ato ym mharagraff (2)(c) caiff y cyflogwyr, neu'r person ei hun, gyflwyno i'r meddyg penodedig ddatganiad sy'n cynnwys tystiolaeth neu ddeunydd arall sy'n berthnasol i'r archwiliad: a gall meddyg a chanddo gymhwyster priodol a benodir at y diben hwnnw gan y person sy'n cael ei archwilio fod yn bresennol yn yr archwiliad.

(3) At any time before such medical examination as is referred to in paragraph (2)(c) the employers, or the person himself, may submit to the appointed medical practitioner a statement containing evidence or other matter relevant to the examination: and the examination may be attended by any duly qualified medical practitioner appointed for the purpose by the person being examined.

RHAN IV

DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I YSGOLION YN UNIG

Cyflogaeth y mae Rhan IV yn gymwys iddi

8. Yn ddarostyngedig i reoliad 9 bydd y rhan hon yn gymwys i gyflogi personau fel athrawon mewn ysgolion, onid ydynt yn cael eu cyflogi'n unig i ddarparu-

(a) addysg ran-amser i bersonau dros oedran ysgol gorfodol yn unig; neu

(b) addysg amser-llawn i bersonau sydd wedi cyrraedd 19 oed yn unig; neu

(c) yr addysg ran-amser a'r addysg amser-llawn honno.

9. At ddibenion y Rhan hon, mae cyflogi yn cynnwys cyflogi person i roi ei wasanaethau fel athro heblaw o dan contract cyflogi a dehonglir cyfeiriadau at gyflogi neu at fod yn gyflogedig yn unol â hynny.

Cyflogi sydd wedi'i gyfyngu fel rheol i athrawon cymwysedig

10. Ac eithrio yn yr achosion ac o dan yr amgylchiadau a nodir yn Atodlen 2, ac yn ddarostyngedig i reoliadau 11, 12, 13 a 14 ni chaiff neb ei gyflogi fel athro mewn ysgol onid yw'n athro cymwysedig yn unol ag Atodlen 3.

PART IV

PROVISIONS APPLYING ONLY TO SCHOOLS

Employment to which Part IV applies

8. Subject to regulation 9 this part shall apply in relation to the employment of persons as teachers at schools, unless they are employed solely in the provision of-

(a) part-time education to persons over compulsory school age only; or

(b) full-time education to persons who have attained the age of 19 years only; or

(c) both such part-time and such full-time education.

9. For the purposes of this Part, employment includes the engagement of a person to provide his services as a teacher otherwise than under a contract of employment and references to employment or being employed shall be construed accordingly.

Employment normally restricted to qualified teachers

10. Save in the cases and circumstances specified in Schedule 2, and subject to regulations 11, 12, 13 and 14 no person shall be employed as a teacher at a school unless he is a qualified teacher in accordance with Schedule 3.

Cyflogi athrawon disgyblion a nam ar eu clyw

11. Yn ddarostyngedig i reoliadau 13 a 14, ni fydd neb yn athro cymwys i gael ei gyflogi mewn ysgol fel athro dosbarth o ddisgyblion y mae ganddynt nam ar eu clyw (ac eithrio er mwyn rhoi hyfforddiant mewn crefft, masnach neu bwnc cartref), onid yw'n meddu ar gymhwyster y mae'r Cynulliad yn ei gymeradwyo am y tro at ddibenion y rheoliad hwn yn ychwanegol at fod yn athro cymwysedig yn unol ag Atodlen 3.

Cyflogi athrawon disgyblion a nam ar eu golwg

12. Yn ddarostyngedig i reoliadau 13 a 14, ni fydd neb yn athro cymwysedig at ddibenion cyflogaeth mewn ysgol fel athro dosbarth o ddisgyblion y mae nam ar eu golwg (ac eithrio er mwyn rhoi hyfforddiant mewn crefft, masnach neu bwnc cartref); onid yw'n meddu ar gymhwyster y mae'r Cynulliad yn ei gymeradwyo am y tro at ddibenion y rheoliad hwn yn ychwanegol at fod yn athro cymwysedig yn unol ag Atodlen 3.

Cyflogi athrawon disgyblion y mae ganddynt nam ar eu clyw a'u golwg

13.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) a rheoliad 14, ni fydd neb yn athro cymwysedig at ddibenion cyflogaeth mewn ysgol fel athro dosbarth o ddisgyblion y mae ganddynt nam ar eu clyw a'u golwg (ac eithrio er mwyn rhoi hyfforddiant mewn crefft, masnach neu bwnc cartref); onid yw'n meddu ar gymhwyster y mae'r Cynulliad yn ei gymeradwyo am y tro at ddibenion y rheoliad hwn yn ychwanegol at fod yn athro cymwysedig yn unol ag Atodlen 3.

(2) Bydd person sy'n meddu ar gymhwyster a gymeradwyir o dan reoliad 11 neu 12 yn athro cymwysedig at y diben a grybwyllir ym mharagraff (1) er nad yw'n meddu ar gymhwyster a gymeradwyir at ddibenion y paragraff hwnnw os yw ei gyflogwyr wedi'u bodloni nad oes unrhyw athro â chymhwyster o'r fath ar gael i addysgu'r dosbarth o dan sylw.

Employment of teachers of hearing impaired pupils

11. Subject to regulations 13 and 14, a person shall not be a qualified teacher for the purpose of employment at a school as a teacher of a class of pupils who are hearing impaired (otherwise than to give instruction in a craft, trade or domestic subject), unless in addition to being a qualified teacher in accordance with Schedule 3, he possesses a qualification for the time being approved by the Assembly for the purpose of this regulation.

Employment of teachers of visually impaired pupils

12. Subject to regulations 13 and 14, a person shall not be a qualified teacher for the purpose of employment at a school as a teacher of a class of pupils who are visually impaired (otherwise than to give instruction in a craft, trade or domestic subject), unless in addition to being a qualified teacher in accordance with Schedule 3, he possesses a qualification for the time being approved by the Assembly for the purpose of this regulation.

Employment of teachers of pupils who are both hearing and visually impaired

13.-(1) Subject to paragraph (2) and regulation 14, a person shall not be a qualified teacher for the purpose of employment at a school as a teacher of a class of pupils who are both hearing impaired and visually impaired (otherwise than to give instruction in a craft, trade or domestic subject), unless in addition to being a qualified teacher in accordance with Schedule 3, he possesses a qualification for the time being approved by the Assembly for the purpose of this regulation.

(2) A person who possesses a qualification approved under regulation 11 or 12 shall be a qualified teacher for the purpose mentioned in paragraph (1) notwithstanding that he does not possess a qualification approved for the purpose of that paragraph where his employers are satisfied that no teacher with such a qualification is available to teach the class in question.

Cyflogi dros dro athrawon disgyblion a nam ar eu golwg neu nam ar eu clyw (neu'r ddau)

14. Gellir cyflogi person mewn ysgol arbennig fel athro dosbarth o ddisgyblion y mae ganddynt-

(a) nam ar eu clyw;

(b) nam ar eu golwg; neu

(c) nam ar eu clyw a'u golwg,

er nad yw'n athro cymwysedig yn unol â rheoliad 11, 12, neu 13(1), fel y bo'r achos, at ddibenion cyflogaeth o'r fath os yw ei gyflogwyr wedi'u bodloni ei fod yn bwriadu ennill cymhwyster a gymeradwyir gan y Cynulliad o dan reoliad 11, 12 neu 13(1), fel y bo'r achos, ar yr amod, er hynny, nad yw'r cyfnod agregedig y mae wedi'i gyflogi ar ei gyfer, mewn un neu ragor o ysgolion, fel athro'r dosbarth o ddisgyblion a grybwyllir yn is-baragraff (a), (b) neu (c), fel y bo'r achos, yn fwy na thair blynedd.

Temporary employment of teachers of the visually impaired or hearing impaired (or both)

14. A person may be employed at a special school as the teacher of a class of pupils who are-

(a) hearing impaired;

(b) visually impaired; or

(c) both hearing impaired and visually impaired,

notwithstanding that he is not a qualified teacher in accordance with regulation 11, 12 or 13(1), as the case may be, for the purpose of such employment if his employers are satisfied that it is his intention to acquire a qualification approved by the Assembly under regulation 11, 12 or 13(1), as the case may be, provided however that the aggregate period for which he has been employed, in one or more schools, as the teacher of such a class of pupils as are mentioned in subparagraph (a), (b) or (c), as the case may be, does not exceed three years.

1999 [Presiding Officer,

1999 [Y Llywydd, National Assembly for Wales]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru]

ATODLEN 1 Rheoliad 2

RHAN I: DIDDYMIADAU

SCHEDULE 1 Regulation 2

PART I: REVOCATIONS

Rheoliadau Addysg (Athrawon) 1993 (O. S.1993/543)

Diddymir y darpariaethau canlynol:

Rheoliad 2(1);

rheoliad 2(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 2 i 7 o Atodlen 1;

rheoliad 3(3)(a) i (c);

rheoliad 4;

rheoliad 6;

rheoliad 8;

rheoliad 9;

rheoliad 12 i 17;

Paragraffau 2 i 7 o Atodlen 1;

Atodlen 2;

Atodlen 3;

ynglŷn â Chymru ym mhob achos.

Rheoliadau Addysg (Athrawon)(Diwygio) 1997 (O.S.1997/368)

Diddymir y Rheoliadau cyfan ynglŷn â Chymru.

Rheoliadau Addysg (Athrawon)(Diwygio)

(Rhif 2) 1997 (O.S. 1997/2679)

Diddymir y darpariaethau canlynol:

Yn rheoliad 2 y rheoliad 3(1)(c) a amnewidiwyd a'r rheoliad 3(2) a amnewidiwyd, heblaw'r diffiniad o "relevant employment"; rheoliadau 3 i 7; ynglŷn â Chymru ym mhob achos.

The Education (Teachers) Regulations 1993 (S.I.1993/543)

The following provisions are revoked:

Regulation 2(1);

regulation 2(2) in so far as it relates to paragraphs 2 to 7 of Schedule 1;

regulation 3(3)(a) to (c);

regulation 4;

regulation 6;

regulation 8;

regulation 9;

regulations 12 to 17;

Paragraphs 2 to 7 of Schedule 1;

Schedule 2;

Schedule 3;

in each case as regards Wales.

The Education (Teachers)(Amendment) Regulations 1997 (S.I. 1997/368)

The whole Regulations are revoked as regards Wales.

The Education (Teachers) (Amendment) (No 2) Regulations 1997 (S.I. 1997/2679)

The following provisions are revoked:

In regulation 2 the substituted regulation 3(1)(c) and the substituted regulation 3(2), other than the definition of "relevant employment"; regulations 3 to 7; in each case as regards Wales.

Rheoliadau Addysg (Athrawon)(Diwygio) (O.S. 1998/1584)

Diddymir rheoliad 4 ynglŷn â Chymru.

The Education (Teachers) (Amendment) Regulations (S.I. 1998/1584)

Regulation 4 is revoked as regards Wales.

RHAN II

DARPARIAETHAU TROSIANNOL CYFFREDINOL

Y cymwysterau presennol ar gyfer addysgu disgyblion â nam ar eu clyw

1. Ymdrinnir ag unrhyw berson a oedd yn union cyn 1 Medi 1999 yn meddu ar y canlynol-

(a) cymhwyster a gymeradwyir at ddibenion rheoliad 14 o Reoliadau 1993; neu

(b) cymhwyster a gymeradwyir at ddibenion rheoliad 15 o Reoliadau 1989; neu

(c) cymhwyster a grybwyllir yn rheoliad 15(1) o Reoliadau 1982; neu

(d) cymhwyster cymaradwy a gymeradwyir at ddibenion y rheoliad hwnnw; neu

(e) cymhwyster a grybwyllir yn rheoliad 20(3) o Reoliadau 1959; neu

(f) cymhwyster cyfatebol a gymeradwyir at ddibenion y rheoliad hwnnw,

fel person sy'n meddu ar gymhwyster a gymeradwyir at ddibenion 11.

PART II

GENERAL TRANSITIONAL PROVISIONS

Existing qualifications for teaching hearing impaired pupils

1. Any person who immediately before 1st September 1999 possessed-

(a) a qualification approved for the purpose of regulation 14 of the 1993 Regulations; or

(b) a qualification approved for the purpose of regulation 15 of the 1989 Regulations; or

(c) a qualification mentioned in regulation 15(1) of the 1982 Regulations; or

(d) a comparable qualification approved for the purposes of that regulation; or

(e) a qualification mentioned in regulation 20(3) of the 1959 Regulations; or

(f) an equivalent qualification approved for the purposes of that regulation,

shall be treated as possessing a qualification approved for the purpose of regulation 11.

Y cymwysterau presennol ar gyfer addysgu disgyblion a nam ar eu golwg

2. Ymdrinnir ag unrhyw berson a oedd yn union cyn 1 Medi yn meddu ar y canlynol

(a) cymhwyster a gymeradwyir at ddibenion rheoliad 15 o Reoliadau 1993; neu

(b) cymhwyster a gymeradwyir at ddibenion rheoliad 16 o Reoliadau 1989; neu

(c) cymhwyster a grybwyllir yn rheoliad 16(1) o Reoliadau 1982; neu

(d) cymhwyster a gymeradwyir at ddiben y rheoliad hwnnw fel cymhwyster y gellir ei gymharu ag un a grybwyllir felly; neu

(e) cymhwyster ar gyfer addysgu disgyblion dall a oedd, yn union cyn 8 Ebrill 1982, yn bodloni gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol o dan reoliad 15 (2) o Reoliadau Disgyblion o Dan Anfantais ac Ysgolion Arbennig 1959^(a),

fel person sy'n meddu ar gymhwyster a gymeradwyir at ddibenion rheoliad 12.

Parhau i gyflogi athrawon presennol disgyblion y mae ganddynt nam ar eu clyw neu eu golwg neu'r ddau

3. Caiff person sydd wedi bodloni gofynion rheoliad 18 o Reoliadau 1982 ar gyfer cyflogaeth mewn ysgol arbennig fel athro dosbarth o ddisgyblion a oedd yn fyddar neu'n rhannol fyddar ac yn ddall gael ei gyflogi mewn ysgol fel athro dosbarth o ddisgyblion y mae ganddynt nam ar eu clyw a'u golwg, er nad yw'n athro cymwysedig at ddibenion rheoliad 13(1).

Existing qualifications for teaching visually impaired pupils

2. Any person who immediately before 1st September 1999 possessed-

(a) a qualification approved for the purpose of regulation 15 of the 1993 Regulations; or

(b) a qualification approved for the purpose of regulation 16 of the 1989 Regulations; or

(c) a qualification mentioned in regulation 16(1) of the 1982 Regulations; or

(d) a qualification approved for the purpose of that regulation as comparable to a qualification so mentioned; or

(e) a qualification for teaching blind pupils which, immediately before 8th April 1982, satisfied the requirements of the Secretary of State under regulation 15(2) of the Handicapped Pupils and Special Schools Regulations 1959⁽ⁱ⁾,

shall be treated as possessing a qualification approved for the purpose of regulation 12.

Continued employment of existing teachers of pupils who are hearing or visually impaired or both

3. A person who has satisfied the requirements of regulation 18 of the 1982 Regulations for employment at a special school as the teacher of a class of pupils who were both deaf or partially hearing and blind may, notwithstanding that he is not a qualified teacher for the purpose of regulation 13(1), be employed at a school as a teacher of a class of pupils who are both hearing and visually impaired.

Cyfnod cyflogi myfyrwyr-athrawon

4. Bydd i gymeradwyaeth at ddibenion paragraff 2 (2)(a) o Atodlen 3 i Reoliadau 1989 am gyfnod sy'n fwy na dwy flynedd ac y gall person gael ei gyflogi fel myfyriwr-athro ynddo effaith fel petai wedi'i rhoi at ddibenion 2(2)(a) o Atodlen 2.

Achredu sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon

5. Bydd i unrhyw achrediad at ddibenion paragraff 3 o Atodlen 3 i Reoliadau 1993 sydd mewn grym yn union cyn 1 Medi 1999 effaith fel petai wedi'i roi at ddibenion paragraff 2 o Atodlen 3.

Penderfyniadau prawf gan y Cynulliad

6.-(1) Yn achos person, a oedd ar 1 Medi 1992 wedi cychwyn ond heb gwblhau cyfnod prawf o dan reoliad 14 o Reoliadau 1989, ac Atodlen 6 iddynt, bydd rheoliad 14 ac Atodlen 6 yn parhau i gael effaith tan y cydymffurfir â'u holl ddarpariaethau.

(2) Ni chaiff athro-

(a) y dyfarnwyd ei fod yn anaddas i gael ei gyflogi ymhellach fel athro cymwysedig yn unol â pharagraff 2(c) o Atodlen 2 i Reoliadau 1959; neu

(b) a gafodd rybudd ysgrifenedig o dan baragraff 5 (2) o Atodlen 6 i Reoliadau 1982,

ei gyflogi fel athro mewn ysgol heb ganiatâd y Cynulliad.

Period of employment of student teachers

4. An approval for the purposes of paragraph 2(2)(a) of Schedule 3 to the 1989 Regulations of a period exceeding two years during which a person may be employed as a student teacher shall have effect as if given for the purposes of paragraph 2(2)(a) of Schedule 2.

Accreditation of institutions providing initial teacher training

5. Any accreditation for the purposes of paragraph 3 of Schedule 3 to the 1993 Regulations in force immediately before 1st September 1999 shall have effect as if given for the purposes of paragraph 2 of Schedule 3.

Probation decisions by the Assembly

6.- (1) In the case of a person who, on 1st September 1992, had commenced but not completed a period of probation under regulation 14 of, and Schedule 6 to, the 1989 Regulations, regulation 14 and Schedule 6 shall continue to have effect until all their provisions have been complied with.

(2) A teacher who-

(a) has been determined to be unsuitable for further employment as a qualified teacher pursuant to paragraph 2(c) of Schedule 2 to the 1959 Regulations; or

(b) who received written notice under paragraph 5(2) of Schedule 6 to the 1982 Regulations,

shall not be employed as a teacher in a school without the consent of the Assembly.

Athrawon trwyddedig, athrawon sydd wedi'u hyfforddi dramor ac athrawon cofrestredig

7. Bydd Rheoliadau 1993 yn parhau i fod yn gymwys fel petai Rheoliadau Addysg (Athrawon) (Diwygio) (Rhif 2) 1997^(a) a'r Rheoliadau hyn heb gael eu gwneud at ddibenion-

(a) caniatáu cyflogi fel athro mewn ysgol athro anghymwysedig a oedd yn athro trwyddedig neu'n athro a hyfforddwyd dros y môr fel y'u diffiniwyd ynddynt ar 30 Tachwedd 1997, a bydd y dyletswyddau a osodwyd ar y personau mewn cysylltiad â hynny yn parhau i fod yn gymwys; a

(b) penderfynu a oedd person, a oedd ar 30 Tachwedd 1997 neu unrhyw bryd cyn hynny yn athro trwyddedig, athro a hyfforddwyd dros y môr neu'n athro cofrestredig fel y'u diffiniwyd ynddynt, yn athro cymwysedig.

[8. Lle cyflawnwyd swyddogaeth a roddwyd gan y Rheoliadau hyn i'r Cynulliad cyn 1 Gorffennaf 1999 gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â Rheoliadau 1982, bydd Rheoliadau 1989 neu Rheoliadau 1993, bydd unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at gyflawni'r swyddogaeth honno gan y Cynulliad yn cynnwys, ynglŷn ag unrhyw amser cyn 1 Gorffennaf 1999, yn cynnwys cyfeiriad at ei gyflawni gan yr Ysgrifennydd Gwladol.]

ATODLEN 2 Rheoliad 10

ACHOSION AC AMGYLCHIADAU LLE GELLIR CYFLOGI ATHRAWON ANGHYMWYSEDIG MEWN YSGOLION

RHAN 1

CYFFREDINOL

Licensed, overseas trained and registered teachers

7. The 1993 Regulations shall continue to apply as if the Education (Teachers) (Amendment) (No. 2) Regulations 1997⁽ⁱ⁾ and these Regulations had not been made for the purposes of-

(a) permitting the employment as a teacher at a school of an unqualified teacher who was a licensed teacher or an overseas trained teacher as therein defined on 30th November 1997, and duties imposed on persons in connection therewith shall continue to apply; and

(b) determining whether a person, who on or at any time before 30th November 1997 was a licensed teacher, overseas trained teacher or registered teacher as therein defined, is a qualified teacher.

